FOULKES, HENRY POWELL (1815 - 1886), clerigwr ac awdur

Enw: Henry Powell Foulkes
Dyddiad geni: 1815
Dyddiad marw: 1886
Priod: Jane Margaret Foulkes (née Lloyd)
Rhiant: Caroline Powell (née Foulkes)
Rhiant: John Powell Foulkes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd 2 Ionawr 1815 yn Stanstead Bury, Herts, ail fab John Powell a Caroline Mary Foulkes. Addysgwyd ef yn Ysgol y Brenin, Caer, yn Amwythig, a Choleg Balliol, Rhydychen, lle y graddiodd yn B.A. 1837, M.A. 1840. Ordeiniwyd ef yn ddiacon ym Mehefin 1839 gyda theitl i guradiaeth Halkin, Sir y Fflint, ac yng Ngorffennaf o'r flwyddyn fe'i ordeiniwyd yn offeiriad. Rhoddwyd bywoliaeth Llandyssil, Sir Drefaldwyn, iddo yn 1857, a gwnaed ef yn archddiacon Trefaldwyn yn 1861, swydd a oedd ynghlwm wrth ganonaeth yn yr eglwys gadeiriol. Cafodd fywoliaeth Whittington, Sir Amwythig, yn 1879, a bu yno hyd ei farw. Priododd Jane Margaret, merch Edward Lloyd, Rhaggatt, a bu iddynt un ferch a fu farw yn 14 oed.

Yr oedd yn awdur sawl llawlyfr at waith yr ysgol Sul. Yng nghynghrair yr Eglwys yn Leeds, 1872, darllenodd bapur ar hanes yr Eglwys yng Nghymru. Bu farw 26 Ionawr 1886, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Llanelwy.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

Foster, *Alumni Oxonienses*

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1886

St Asaph diocesan records

H. Blackwell, NLW MS 9257A: A Dictionary of Welsh Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733157

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu